



---

**Adroddiad y:  
Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc**

# **Adroddiad Blynyddol 2017-18 y Pwyllgor Craffu**

**Mai 2018**



**Cyngor Caerdydd**

---

# AELODAETH Y PWYLLGOR CRAFFU PLANT A PHOBL IFANC



Y Cynghorydd Lee Bridgeman  
(Cadeirydd)



Y Cynghorydd Dan De'Ath



Y Cynghorydd Philippa Hill-John



Y Cynghorydd Heather Joyce



Y Cynghorydd Linda Morgan



Y Cynghorydd Jim Murphy



Y Cynghorydd Mike Phillips



Y Cynghorydd Kanaya Singh



Y Cynghorydd Rhys Taylor

## Aelodau Cyfetholedig:



**Mrs P Arlotte**  
Cynrychiolydd yr Eglwys  
Gatholig



**Carol Cobert**  
Cynrychiolydd  
yr Eglwys yng Nghymru



**Ms Rebecca Crump**  
Cynrychiolydd  
Rhiant-Lywodraethwyr



**Karen Dell'Armi'**  
Cynrychiolydd  
Rhiant-Lywodraethwyr

## RHAGAIR Y CADEIRYDD

Rwy'n falch o gyflwyno adroddiad blynyddol y pwyllgor ar gyfer 2017/18. Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i aelodau ac aelodau cyfetholedig y pwyllgor am eu gwaith caled, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r materion, a'r gefnogaeth maent wedi'i rhoi i mi, sydd wedi gwneud fy swydd yn fy mlwyddyn gyntaf fel cadeirydd yn llawer haws. Hefyd, hoffwn ddiolch i'r swyddogion craffu, sy'n cynnig llawer iawn o gefnogaeth i mi yn ogystal â'r pwyllgor cyfan, a'r tystion sydd wedi siarad â'r pwyllgor, gan roi o'u hamser hamdden gwerthfawr, yn enwedig yn yr ymholiadau gorchwyl a gorffen.

Rwyf wedi bod yn falch o gadeirio'r pwyllgor hanfodol hwn ym mlwyddyn gyntaf y weinyddiaeth newydd; mae llawer o aelodau newydd ac mae'r pwyllgor wedi bod yn rhan o hyfforddiant diddorol iawn, sydd wedi ein galluogi i gyflawni ein rôl fel cyfeillion beirniadol i'r cyfarwyddiaethau sy'n gysylltiedig â'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc (PCPPI). Rwy'n falch bod y pwyllgor wedi cael cwota llawn o gynghorwyr ac aelodaeth gyfetholedig eleni, ac rwy'n gwybod bod yna aelodau eraill a hoffai gymryd rhan yn y pwyllgor, os bydd lle'n dod yn wag. Mae hyn yn dangos i mi pa mor bwysig yw'r pwyllgor hwn o fewn strwythur craffu.

Fel y gwelwch o ddarllen yr adroddiad hwn, mae'r pwyllgor wedi bod yn craffu ar benderfyniadau pwysig iawn sy'n effeithio ar fywydau pob dydd pobl ifanc sy'n byw yn y ddinas. Fel cadeirydd, rwy'n awyddus i roi llais i bobl ifanc, felly roedd rhoi'r cyfle iddynt siarad yn y pwyllgor ac fel tystion yn ein ymholiad eleni yn ystyrlon ac yn bwerus i'r pwyllgor. Gobeithio y bydd hyn yn parhau.

Mae'r adroddiad isod yn tynnu sylw at y gwaith allweddol yr ydym wedi'i wneud yn y flwyddyn ddiwethaf. Fel y gwelwch, o fis Gorffennaf i fis Ebrill, mae'r pwyllgor wedi bod yn brysur iawn. Rwy'n credu bod llawer o enghreifftiau da o waith craffu gwych yn yr adroddiad hwn a byddwn yn hoffi meddwl eich bod chi oll yn cytuno. Edrychaf ymlaen at gadeirio'r pwyllgor hwn eto yn 2018/19 oherwydd mai pwyllgor craffu hollbwysig yw hwn, fel yr wyf wedi nodi o'r blaen, ac, yn bwysicaf oll, mae'n ystyried y penderfyniadau a wneir gan y cyngor hwn a sut maent yn effeithio ar fywydau ein plant yn ein dinas brydferth.



**Y Cyngorydd Lee Bridgeman**

**Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc – Mai 2018**

## CYFLWYNIAD

Mae gan Bwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc rôl bwysig yn y gwaith o asesu perfformiad gwasanaethau a llywio'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau a pholisi mewn amrywiaeth o wasanaethau'r Cyngor, gan gynnwys pob agwedd ar Addysg, Gofal Cymdeithasol i Blant, Chwarae Plant a'r Gwasanaeth Ieuencid.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno prif weithgareddau'r Pwyllgor yn ystod 2017-18 a lle bynnag y bo modd, mae'n defnyddio Nodweddion Cenedlaethol Craffu Da Cymru er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Canlyniadau gwell – Mae atebolrwydd democrataidd yn arwain ar welliant mewn gwasanaethau cyhoeddus.
- Penderfyniadau gwell – Mae gwneud penderfyniadau'n ddemocrataidd yn atebol, yn gynhwysol ac yn gadarn.
- Cysylltu gwell – Mae'r cyhoedd yn rhan o drafodaeth ddemocrataidd am ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Rhwng mis Gorffennaf 2017 a mis Ebrill 2018, derbyniodd aelodau'r Pwyllgor hyfforddiant mewn gwybodaeth perfformiad a chyllido ac aethant i ymweld â gwasanaethau rheng flaen. Mae'r Pwyllgor wedi craffu ar ystod eang o destunau sy'n cyfrannu at ddatblygu a gwella gwasanaethau plant a phobl ifanc; mae rhestr o'r rhain dan y penawdau isod:

- **Ymholiadau** – Lle mae'r Pwyllgor wedi ymchwilio i fater dros gyfnod o amser ac mae hynny wedi arwain at gyflwyno adroddiad ffurfiol i'r Cabinet.
- **Datblygu Polisi** – Lle mae'r Pwyllgor wedi cyfrannu at brosesau datblygu polisi'r Cyngor trwy ystyried dogfennau polisi drafft.
- **Cyn Penderfynu** – Lle mae'r Pwyllgor wedi gwerthuso a gwneud sylwadau ar gynigion polisi cyn yr ânt at y Cabinet ac wedi rhoi cyfle i'r Cabinet gael gwybod barn aelodau Craffu cyn gwneud penderfyniad.
- **Monitro** – Lle mae'r Pwyllgor wedi monitro perfformiad a chynnydd y Cyngor o ran rhoi camau gweithredu y cytunwyd arnynt ynghynt ar waith. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi sefydlu panel monitro cyllideb.

- **Galw i mewn** – Lle mae aelod wedi galw ar y weithdrefn Galw i Mewn dan gyfansoddiad y Cyngor er mwyn adolygu penderfyniad y Cabinet cyn ei weithredu.

### **Adroddiadau Ymholiadau**

- ❖ Amseroedd Tymor yr Ysgol - Ymateb
- ❖ Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod - Ymateb
- ❖ Lleoliadau Tu Allan i'r Sir – Ymholiad
- ❖ Ymholiad Atal Pobl Ifanc rhag Delio Cyffuriau - ar y cyd â Phwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion

### **Paneli'r Pwyllgor**

- ❖ Monitro'r Gyllideb
- ❖ Fformat adrodd am Berfformiad Gwasanaethau Plant

### **Llunio Polisi**

- ❖ Craffu Consortiwm Addysg Canolbarth y De – Cydweithio
- ❖ Polisi Derbyn i Ysgolion
- ❖ Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion

### **Craffu Cyn Penderfynu**

- ❖ Cynigion Cyllideb 2018-19
- ❖ Cynllun Corfforaethol 2018-2020
- ❖ Teuluoedd yn Gyntaf - trefniadau ar gyfer ail-gomisiynu
- ❖ Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion Band B – Datblygu'r ystâd addysg yng Nghaerdydd ar gyfer y dyfodol
- ❖ Trefniadau Derbyn i Ysgolion 2019/20
- ❖ Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion – blaenoriaethau Band B
- ❖ Cynigion trefniant ysgolion – gwella darpariaeth i blant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) 2018-22
- ❖ Perfformiad Ysgolion Caerdydd 2016/17
- ❖ Coleg Dewi Sant – newid statws arfaethedig
- ❖ Cynigion Cyllideb Cabinet 2018-19
- ❖ Trefniadau Derbyn i Ysgolion

- ❖ Cynigion trefniant ysgolion – gwella darpariaeth i blant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol 2018-22 – Canlyniad yr ymgynghoriad

### **Monitro Perfformiad**

- ❖ Gwasanaethau Plant – Monitro Perfformiad Chwarterol
- ❖ Addysg a Dysgu Gydol Oes – Adroddiad Blynyddol Ysgolion 2016/17 ac adroddiadau perfformiad chwarterol
- ❖ Consortiwm Addysg Canolbarth y De – Cyfraniad y Consortiwm at godi safonau yn ysgolion Caerdydd
- ❖ Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol
- ❖ Teuluoedd yn Gyntaf

### **Briffio Aelodau**

- ❖ Arwyddion Diogelwch
- ❖ Rhaglen Gyfoethogi Gwyliau Ysgol
- ❖ Gwasanaeth Ieuenctid

### **Llais y Cyhoedd**

- ❖ Trefniadau Derbyn i Ysgolion 2019/20

Mae'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc wedi cynnal 10 cyfarfod llawn y Pwyllgor ac 1 cyfarfod ar y cyd gyda Phwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion ers mis Gorffennaf 2017. O ganlyniad i ystyried dros 32 o adroddiadau'n trafod llunio polisi, craffu cyn penderfynu, monitro cynnydd a pherfformiad gwasanaeth, anfonodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu 22 o lythyrau i'r Cabinet ac at swyddogion, a oedd yn cynnwys ceisiadau am wybodaeth a sylwadau ychwanegol ynghylch eitemau a ystyrir yng nghyfarfodydd y Pwyllgor.

Hefyd, o ganlyniad i'r cyfarfodydd hyn, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at yr Aelod Cabinet perthnasol yn nodi naw argymhelliad i'r Cabinet ac i swyddogion eu hystyried. Bu i'r Pwyllgor dderbyn ymatebion prydlon gan y Cabinet ar gyfer pob llythyr a oedd yn gofyn am ateb. Yn ogystal, rhoddodd swyddogion wybodaeth yn ôl y gofyn a chytunwyd i addasu adroddiadau'r dyfodol mewn ymateb i ofynion y Pwyllgor.

## Cwestiynau Cyhoeddus ar Gyfer Craffu – Ymgysylltu Gwell

Mae pum pwyllgor craffu'r Cyngor yn gwahodd dinasyddion a chynrychiolwyr sefydliadau cymunedol a'r trydydd sector i gynnig tystiolaeth mewn cyfarfodydd y Pwyllgor ac ymholiadau Gorchwyl a Gorffen. Yn ystod 2017/18, bu i'r Pwyllgor dderbyn cyngor, sylwadau a chlywed pryderon gan lawer o bobl a oedd wedi eu gwahodd neu wedi gofyn am gael dod i gyfarfod y Pwyllgor.

Mae'r Cadeirydd wedi derbyn ceisiadau gan bobl i fynychu cyfarfodydd a gohebiaeth gysylltiedig ynghylch nifer o faterion dros y flwyddyn ddiwethaf. Caiff yr holl ohebiaeth ei hadolygu a'i chymeradwyo cyn pob cyfarfod perthnasol y Pwyllgor a gofynnir i aelodau os dymunant godi unrhyw faterion ar ran y cyhoedd neu i'r Cadeirydd ddarllen y cwestiynau cyhoeddus yng nghyfarfod y Pwyllgor er mwyn galluogi'r rhai hynny sy'n mynychu i glywed eu cwestiynau'n cael eu gofyn a'r ymateb canlyniadol gan yr Aelod Cabinet a/neu Gyfarwyddwr. Mewn un o gyfarfodydd y Pwyllgor roedd mwy na 30 o bobl yn yr oriel gyhoeddus i wrando ar fater yr oeddent yn pryderu yn ei gylch yn cael ei ystyried.

Ym mis Tachwedd 2017, ystyriodd y Pwyllgor adroddiad drafft gan y Cabinet ar Drefniadau Derbyn i Ysgolion 2019/20 pan dderbyniodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Brifysgol Caerdydd ynglŷn â'i gwaith ymchwil ar feini prawf derbyn i ysgolion a threfniadau derbyn i ysgolion cyn ymgynghori ymhellach. Derbyniodd Cadeirydd y Pwyllgor ohebiaeth gan nifer o bartïon â diddordeb a oedd yn nodi nifer o bryderon a chwestiynau. Hefyd, croesawodd y Cadeirydd nifer o bobl i oriel gyhoeddus cyfarfod y Pwyllgor. Wrth ystyried yr adroddiad cabinet drafft, mynegodd aelodau'r pryderon a gofyn cwestiynau a gynigiwyd gan y cyhoedd i sicrhau y gallai'r rhai a oedd yn bresennol glywed a deall yr esboniadau a'r atebion a roddwyd yn glir.

Ym mis Ionawr 2018, ystyriodd y Pwyllgor adroddiad Cabinet drafft am Gynigion Trefniadaeth Ysgolion – Gwella Darpariaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol 2018-22. Hefyd derbyniodd y Cadeirydd ohebiaeth gan bartïon â diddordeb ynghylch effaith y cynigion hyn ar Ysgol Arbennig Meadowbank. Yn y cyfarfod, roedd cynrychiolydd o Ysgol Arbennig Meadowbank



yn bresennol yn yr oriel gyhoeddus i glywed y pryderon a godwyd gan aelodau, a'r ymateb canlynol gan yr Aelod Cabinet a/neu'r Cyfarwyddwr.

Ym mis Mawrth 2018, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad Cabinet drafft i roi gwybod i'r Cabinet am yr ymatebion a dderbyniwyd yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus ar Drefniadau Derbyn i Ysgolion 2019/20 y Cyngor. Derbyniodd y Cadeirydd ohebiaeth gan bartïon â diddordeb ac yn benodol gan Grŵp Gweithredu Plant Marlborough ynghylch y trefniadau arfaethedig. Yn y cyfarfod, roedd cynrychiolydd o Ysgol Gynradd y Rhath yn bresennol yn yr oriel gyhoeddus i glywed y pryderon a godwyd gan aelodau, a'r ymateb canlynol gan yr Aelod Cabinet a/neu Gyfarwyddwr.

Nodwyd canlyniad pob un o'r cyfarfodydd hyn yn llythyr y Cadeirydd i'r Aelod Cabinet i'w ystyried yng nghyfarfod perthnasol y Cabinet.

## Adolygiad Craffu – Penderfyniadau Gwell

Roedd adroddiad ymchwiliad Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) ym mis Chwefror 2016 yn cynnwys yr argymhellion canlynol, a oedd yn effeithio ar Graffu yng Nghaerdydd:

- Datblygu ymagwedd at graffu trawsbynciol (o ystyried natur gynyddol darparu gwasanaethau a llywodraethu ar y cyd, ac agenda Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol).
- Ystyried swyddogaeth craffu wrth fynd i'r afael â'r heriau strategol sy'n wynebu'r Cyngor ar yr adeg yma.
- Sicrhau bod unrhyw lefydd gweigion ar bwyllgorau craffu yn cael eu llenwi yn gyflym.
- Ystyried sefydlu pwyllgorau craffu ar we-ddarlledu.

Mewn ymateb i'r argymhellion, mae'r Pwyllgorau Craffu wedi rhoi amrywiaeth o gamau gwella ar waith ac wedi cynnwys y rhain yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor.

Mae trefniadau i graffu ar faterion trawsbynciol sydd wedi'u datblygu gan y Pwyllgor hwn, yn cynnwys:

- Cyd-bwyllgorau i graffu ar faterion trawsbynciol gan gynnwys: Fframwaith Adrodd y Gwasanaethau Cymdeithasol a Chynllun Ardal Caerdydd a Bro Morgannwg ar gyfer Gofal a Chymorth 2018-2023.
- Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y cyd i ystyried cyffuriau.
- Cydgraffu gydag awdurdodau cyfagos ar faterion, gan gynnwys y Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol a Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De.

Craffu ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Mae gan Bwyllgor Adolygu Polisi a Chraffu Perfformiad y Cyngor gyfrifoldeb ffurfiol i graffu ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd. Fodd bynnag, gall pob un o bwyllgorau

craftu eraill y Cyngor craftu ar faterion Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus penodol sy'n dod dan ei gylch gorchwyl.

Ym mis Tachwedd 2017, ymgwymerodd y Pwyllgor Craftu Adolygu Polisi a Pherfformiad â throsolwg strategol o Gynllun Llesiant Drafft Caerdydd er mwyn cynnwys sylwadau neu bryderon y Pwyllgor am Gynllun Llesiant Drafft Caerdydd yn ymgynghoriad y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Mae llefydd gweigion yn cael eu dyrannu i grwpiau gwleidyddol yn unol â rheolau gwleidyddol cyfrannol, a chânt eu trafod yn fisol gyda Chwipiau'r Grwpiau Pleidiol. Mae llefydd gweigion na lwyddwyd i'w llenwi gan grŵp gwleidyddol penodol wedi'u cynnig i grwpiau gwleidyddol eraill a chynghorwyr annibynnol. Drwy gydol y flwyddyn fwrdeistrefol hon, bu aelodaeth lawn gan y Pwyllgor Craftu Plant a Phobl Ifanc.

Mae cyfleusterau gwe-ddarlledu ar waith yn Neuadd y Sir a Siambr Neuadd y Ddinas sy'n galluogi rhai cyfarfodydd Pwyllgor Craftu i gael eu gwe-ddarlledu. Yn rhan o Ddatganiad Gweithredu'r Rheolwyr, cyfarwyddwyd y dylid dechrau gwe-ddarlledu cyfarfodydd pwyllgorau i gynnwys un cyfarfod pwyllgor craftu bob mis o fis Rhagfyr 2016 ymlaen; o fis Mai 2018, gwe-ddarlledir unrhyw bwyllgor craftu sy'n ystyried mater sydd o fudd i'r cyhoedd a gynhelir yn Ystafell Bwyllgor 4, Neuadd y Sir.

Hefyd, mae'r Pwyllgor Craftu wedi datblygu a chyflwyno dangosydd perfformiad, sef "Nifer y cyfranogwyr allanol i gyfarfodydd Craftu", er mwyn tynnu sylw at ansawdd y dystiolaeth a glywir gan aelodau craftu. Ar 31 Mawrth 2018, roedd pwyllgorau craftu wedi derbyn dystiolaeth yn uniongyrchol gan fwy na 250 o dystion allanol.

## Datblygu Aelodau'r Pwyllgor – Penderfyniadau Gwell

Mae Craffu yn broses sy'n cael ei harwain gan aelodau y mae ei lwyddiant yn gysylltiedig yn agos at allu a chymwysterau aelodau'r pwyllgorau craffu. Felly gweithiodd y Tîm Craffu yn agos â chydweithwyr ar draws y Cyngor er mwyn rhoi amrywiaeth o gyfleoedd i aelodau i atgyfnerthu neu loywi eu sgiliau craffu a gwella eu gwybodaeth a dealltwriaeth o sawl mater sy'n berthnasol i'w rôl craffu.

Ym mis Mai 2017, cynhaliwyd etholiadau'r Cyngor, a arweiniodd at nifer o Gynghorwyr newydd. I gynorthwyo'r Gynghorwyr newydd i ddeall y gwasanaeth craffu a'r cymorth a ddarperir gan y Cyngor, sefydlodd y gwasanaeth standin graffu yn y sesiwn gynefino i'r holl aelodau ym mis Mai 2017.

Yn dilyn cymeradwyaeth y Cyngor o gadeiryddiaeth ac aelodaeth y pum pwyllgor craffu, aeth y gwasanaethau craffu ati i drefnu rhaglen o ddigwyddiadau hyfforddi er mwyn galluogi'r aelodau craffu newydd i deall yn gyffredinol eu rolau, eu gweithgareddau a'u prosesau craffu. Roedd hyn yn cynnwys:

- Cyflwyniad i Graffu – Mehefin 2017
- Sgiliau Cadeirio – Mehefin 2017
- Sgiliau Holi – Gorffennaf 2017
- Hyfforddiant Cyllidebu – Chwefror 2018
- Consortiwm Addysg – Mai 2018

Hefyd, mae'r aelodau'n mynychu rhag-gyfarfodydd y pwyllgorau er mwyn trafod, dadansoddi a deall y materion sy'n cael eu hystyried a, phan fo angen, gofyn am ragor o eglurhad o'r wybodaeth. O hyn, pennodd yr aelodau nifer o "linellau ymholi" ar gyfer y cyfarfod.

Parhaodd yr aelodau i weithredu Panel Monitro Cyllideb er mwyn canolbwyntio'n well ar waith yr aelodau o fonitro gwariant cyfarwyddiaethau a sut maent yn rhoi cynigion arbedion ar waith, a lleihau nifer yr eitemau a ystyrir yng nghyfarfodydd y pwyllgorau. Derbyniodd yr aelodau sesiynau briffio ac arweiniad ar amryw agweddau ar wariant, perfformiad a gweithredu.

## Uchafbwyntiau Gwaith y Pwyllgor yn 2017/18

Mae'r adran hon o'r Adroddiad Blynyddol yn cyflwyno uchafbwyntiau o weithgareddau'r pwyllgor yn ystod 2017-18. Mae'r adroddiad yn nodi'r hyn yr oedd y pwyllgor craffu yn ceisio'i wneud ym mhob tasg graffu a'r hyn a lwyddodd i'w wneud.

### Ymholiadau Grŵp Gorchwyl a Gorffen – Canlyniadau Gwell

Rhan bwysig o waith y Pwyllgor yw nodi ac ymchwilio i brif feysydd sy'n destun gofid er mwyn sicrhau canlyniadau gwell ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus a sbarduno gwelliant o ran darparu gwasanaethau. Yn aml gall y rhain fod yn feysydd nad yw Cyfarwyddiaeth wrthi'n gwneud gwaith ynddynt, neu rai sy'n drawsbynciol wrth eu natur ac sy'n cynnwys nifer o gyfarwyddiaethau a sefydliadau partner. Adroddir ar ganlyniadau'r ymchwiliadau hyn wrth yr Aelod Cabinet arweiniol er mwyn eu trafod a, phan fo'n addas, i weithredu argymhellion y Pwyllgor.

### Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir

---

Gofynnwyd am yr ymholiad hwn gan dri Aelod Cabinet a Chadeirydd y Pwyllgor ac fe'i cefnogwyd gan bob aelod o'r Pwyllgor yng nghyfarfod fforwm y rhaglen waith.

Cytunwyd ar gylch gorchwyl yr ymholiad fel a ganlyn:

- Adolygu'r lleoliadau a ddarperir y tu allan i'r sir, y mathau o ddarpariaeth, y gost a'r effaith ar adnoddau
- Nodi bylchau mewn darpariaeth leol, gwasanaethau cymdeithasol, ac addysg sy'n arwain at yr angen i leoli plant y tu allan i'r sir.
- Nodi'r rhwystrau rhag rhoi cymorth ychwanegol yng Nghaerdydd a'r effaith ar blant sy'n derbyn gofal o ran cael eu lleoli y tu allan i Gaerdydd.

- Ystyried cynlluniau a chynigion i gynnig darpariaeth well a phennu effeithiolrwydd y gwelliannau hyn wrth fynd i'r afael â lefelau uchel Caerdydd o ddarpariaeth y tu allan i'r sir.
- Adrodd canfyddiadau'r Pwyllgor i'r Cabinet.

Cytunodd yr aelodau i gynnal nifer o gyfarfodydd a derbyn yr wybodaeth ganlynol:

- Trosolwg a chefnidir – pennu cyd-destun yr ymholiad a chael dealltwriaeth o'r polisiâu, y cynlluniau a'r heriau sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal gan Gyngor Caerdydd.
- Derbyniodd aelodau dystiolaeth gan yr Aelod Cabinet dros Blant a Theuluoedd, Gweithwyr Cymdeithasol ac Uwch Swyddogion Gwasanaethau Plant. Hefyd, clywodd yr ymholiad gan Voices from Care, Rhwydwaith Maethu Cymru, Consortiwm Comisiynu Plant Cymru, a Chadeirydd "Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Wella Canlyniadau i Blant" Llywodraeth Cymru.
- Yn ogystal, adolygodd aelodau nifer o ddogfennau a nodwyd yn berthnasol i waith yr ymchwiliad hwn.

Mae'r aelodau wedi cwblhau eu sesiynau casglu tystiolaeth gan nodi nifer o ganfyddiadau allweddol, a amlygodd feysydd y gellid eu gwella. Mae adroddiad wedi'i ddrafftio i'r Pwyllgor ei ystyried sy'n tynnu sylw at nifer o argymhellion i'r Cabinet eu hystyried.

Bydd canfyddiadau'r ymchwiliad yn cael eu hadrodd i'r Cabinet yn yr haf.

## **Atal Pobl Ifanc rhag Delio Cyffuriau – Grŵp Gorchwyl ar y Cyd â'r Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion**

---

Mewn ymateb i lythyr (dyddiedig 27 Mehefin 2017) gan yr Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau, y Cynghorydd Lynda Thorne, bu Grŵp Gorchwyl CYPSC/ CASSC ar y cyd yn cynnal ymchwiliadau Gorchwyl a Gorffen i ddelio cyffuriau yng Nghaerdydd. Roedd cwrmpas yr ymchwiliad yn galw am archwiliad manwl o'r sefyllfa yn ardaloedd Butetown a Grangetown yn benodol. Cynhaliwyd y cyfarfod

cyntaf ar 17 Hydref 2017 a chaiff y Grŵp Gorchwyl ei gadeirio gan y Cyngorydd Saeed Ebrahim.

Mae'r grŵp wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Rheolwr Diogelwch Cymunedol a phartneriaid Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel a Chydlynol. Yn ystod y sesiynau casglu tystiolaeth hyd yn hyn, mae'r aelodau wedi clywed barn Heddlu De Cymru, y Gwasanaeth Ieuencid, y trydydd sector, ysgolion, cyn-ddeliwr cyffuriau, y Gwasanaeth Prawf, swyddogion tai a grwpiau cymunedol. Mae'r Gwasanaethau Craffu wrthi'n dadansoddi dros 400 o ymatebion i arolwg ar-lein, yn dilyn ymgyrch hyrwyddo fawr ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol Cyngor Caerdydd.

Disgwylir i'r Grŵp Gorchwyl ysgrifennu ei adroddiad terfynol erbyn haf 2018.

## **Amseroedd Tymor yr Ysgol**

---

Cytunodd y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc yn ei gyfarfod ar 27 Medi 2016 i gynnal ymchwiliad i ddiwygio amseroedd tymor yr ysgol yn unol â'r cais gan y Cyngor ar 28 Gorffennaf 2016. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Grŵp Gorchwyl ar 14 Tachwedd 2016.

I gychwyn, cytunodd aelodau'r pwyllgor, cyn cyflwyno unrhyw ymateb i'r Cabinet, y byddent yn bwyllog wrth gasglu barn penaethiaid, athrawon a chyrrff llywodraethu ysgolion, yn gyntaf o ran p'un a ddylid ymchwilio i'r posibilrwydd o ddiwygio dyddiadau tymor yr ysgol ai peidio, ac yna i ddarparu sylfaen dystiolaeth gadarn i ystyried eu penderfyniad.

Adolygwyd canlyniadau'r arolwg hwn wedyn gan y Grŵp Gorchwyl a nododd fod mwyafrif o ysgolion a ymatebodd i'r ymchwiliad yn dymuno cwtdgi gwyliau'r haf o un wythnos. Fodd bynnag, ni nododd yr arolwg yn glir i ba gyfres arall o wyliau y dylid symud yr wythnos hon. Adroddwyd canlyniad yr arolwg i'r Cabinet ei ystyried ym mis Mawrth 2017.

Cyflwynwyd yr adrodd i'r Cabinet ar 6 Gorffennaf 2017, a oedd yn cynnwys dau argymhelliad i'r Cabinet ymateb iddynt:

- Penderfynu a ddylid ymgymryd ag ymgynghoriad ffurfiol gyda'r bwriad o geisio cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru i newid dyddiadau tymor yr ysgol i ysgolion Caerdydd.
- Rhoi gwybod i gyrff llywodraethu ysgolion y gallent ddiwygio eu dyddiau Hyfforddiant Mewn Swydd er mwyn cyd-fynd ag Eid al-Adha a Diwali

Derbyniodd y Pwyllgor ymateb y Cabinet i'w adroddiad ar 14 Tachwedd 2017, sef: Ymateb i Argymhelliad 1: NI dderbynnir yr argymhelliad hwn.

Argymhellir i'r Cabinet gyfeirio'r mater ynghylch newidiadau i amseroedd tymor i Lywodraeth Cymru ei ystyried, ac i benderfynu a ddymunent ymgymryd ag ymgynghoriad cenedlaethol cydlynol ar y mater hwn ai peidio.

Wrth ymateb i ran gyntaf yr argymhelliad gan y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc, mae'n amlwg bod datganiad Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru o fis Mehefin 2017 yn bwynt cyfeirio pwysig. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl gweld llawer o gytuno ar draws Cymru ynghylch dyddiadau'r tymor. Trwy weithredu'n annibynnol ac yn cynnal ei ymgynghoriad ei hun ar newidiadau sylweddol, mae Caerdydd yn mynd yn groes i'r disgwyliad hwn.

Byddai angen i unrhyw ddiwygio sylweddol i ddyddiadau'r tymor angen gydweddu'n agos ag amserlenni y cytunwyd arnynt yn genedlaethol ar gyfer arholiadau a phrofion mewn ysgolion, ynghyd ag amodau gwasanaeth y cytunwyd arnynt yn genedlaethol ar gyfer staff ysgol, gan gynnwys athrawon.

Argymhelliad 2 - Rhoi Gwybod i Gyrff Llywodraethu Ysgolion y gallent ddiwygio eu dyddiau Hyfforddiant Mewn Swydd er mwyn cyd-fynd ag Eid al-Adha a Diwali – DERBYNNIR yr argymhelliad.

Dylid ystyried nifer o ffactorau gan ysgolion wrth bennu eu dyddiau Hyfforddiant Mewn Swydd. Pan fo ysgolion mewn rhwydwaith neu glwstwr yn cyd-drefnu diwrnodau Hyfforddiant Mewn Swydd, gallant gynnig cyfleoedd pwysig ar gyfer datblygu proffesiynol ar y cyd. Mae ystyried gwyliau crefyddol hefyd yn ffactor pwysig mewn rhai cymunedau ysgol. Fodd bynnag, dylid cadw mewn cof y byddai amserlennu diwrnodau Hyfforddiant Mewn Swydd yn ystod gwyliau crefyddol o'r fath hefyd yn effeithio ar staff sydd efallai am ddathlu'r gwyliau eu hunain.



## Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (AOCB)

---

Codwyd y mater hwn yn rhan o'r trafodaethau ynghylch materion i'w hystyried yn rhaglen waith y Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2016 a chafodd ei gymeradwyo yn y Pwyllgor ar 27 Medi 2016. Nododd yr aelodau nifer o bryderon yn benodol yn ymwneud â'r canlynol:

- A yw'n digwydd yng Nghaerdydd?
- Sut y mae arweinwyr cymunedol yn ymateb i'r arfer?
- Pa waith sy'n cael ei wneud mewn ysgolion a chymunedau?
- A fu unrhyw erlyniadau?

Cynhaliodd y grŵp gorchwyl ddwy drafodaeth bwrdd crwn â nifer o randdeiliaid sy'n ymdrin ag AOCB. Nododd y trafodaethau hyn nifer o faterion allweddol y gwnaeth y grŵp gorchwyl eu hadrodd i'r Pwyllgor i'w hystyried gan y Cabinet, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a phartneriaid eraill.

Adroddwyd canfyddiadau'r ymchwiliad i'r Cabinet ym mis Mawrth 2017, a chawsant eu cyflwyno i'r Cabinet ar 6 Gorffennaf 2017. Roedd yr adroddiad yn cynnwys dau argymhelliad i'r Cabinet ymateb iddynt. Nododd ymateb y Cabinet fod un argymhelliad wedi'i dderbyn yn rhannol a bod yr ail wedi'i dderbyn yn llawn. Cyfeiriwyd y trydydd argymhelliad at Wasanaethau Eryl y Goron a BAWSO, a gefnogwyd gan y Cyngor. Y pedwar argymhelliad oedd bod y Pwyllgor yn ysgrifennu at y Bwrdd Iechyd Prifysgol i roi cefnogaeth ar gyfer Clinig AOCB.

Rhoddyd gwybod i'r Gwasanaeth Craffu ym mis Awst 2017, fod clinig AOCB peilot wedi'i sefydlu ar gyfer cleifion Caerdydd a'r Fro, a'r gobaith yw y bydd yn arwain at ddull Cymru Gyfan yn y dyfodol. Hefyd, ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Addysg Kirsty Williams ym mis Gorffennaf 2017 i bob ysgol yng Nghymru er mwyn codi ymwybyddiaeth o Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (AOCB).

## **Datblygu Polisi a Chraffu Cyn Penderfynu - Penderfyniadau Gwell**

Rhan hanfodol o waith y Pwyllgor hwn yw adolygu ac asesu effeithiolrwydd polisïau'r Cyngor a fydd yn effeithio ar fywydau plant a phobl ifanc yng Nghaerdydd. Mae'r Pwyllgor yn ceisio sicrhau bod ei raglen waith yn galluogi craffu ar unrhyw ddatblygiad polisi a phenderfynu ar unrhyw adroddiad Cabinet sy'n ceisio cymeradwyaeth am strategaeth neu bolisi sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Pwyllgor wedi ymgymryd â chraffu cyn penderfynu ar nifer mawr o bolisïau allweddol, cyn iddynt gael eu hystyried gan y Cabinet:

- ❖ Ailgomisiynu Teuluoedd yn Gyntaf
- ❖ Derbyn i Ysgolion
  - Trefniadau
  - Meini Prawf
- ❖ Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion
  - Datblygiadau Band B i'r Dyfodol
  - Blaenoriaethau
  - ADY
  - Ymgynghoriad ADY
- ❖ Coleg Dewi Sant
- ❖ Cynigion Cyllideb 2018-19
- ❖ Cynllun Corfforaethol 2018-2021

### **Teuluoedd yn Gyntaf – Trefniadau ar gyfer Ailgomisiynu**

Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad Cabinet drafft yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2017. Argymhellodd adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol y canlynol i'r Cabinet:

- i. Cytuno ar y dull fesul cam tuag at ailgomisiynu'r gwasanaethau nesaf a ariennir drwy grant Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf fel y'i nodir yng nghorff yr adroddiad:
- ii. Yn amodol ar argymhelliad 3, dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros y Blynyddoedd Cynnar, Plant a Theuluoedd a'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad, ac Adran 151 a'r Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol ar gyfer pob agwedd ar gomisiynu (gan gynnwys dyfarnu contractau) ac unrhyw drefniadau cysylltiedig a allai fod yn ofynnol mewn perthynas â'r rhaglen nesaf.
- iii). Yn amodol ar bob contract a threfniant yn cynnwys darpariaethau priodol sy'n ymwneud ag argaeledd cyllid grant, cytuno na fydd tymor cytundebau a threfniadau o'r fath yn mynd y tu hwnt i 31 Mawrth 2022.

Gwnaeth y Pwyllgor drefnu cynnwys yr adroddiad drafft a chytuno i dderbyn briffiau pellach ar y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran ailgomisiynu Teuluoedd yn Gyntaf, gan gynnwys y Strategaeth Gyfathrebu ddrafft ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf; yr angen i werthusiadau dewisiadau'r dyfodol fod yn dryloyw a chael eu hasesu'n annibynnol; a darparu adroddiadau cynnydd rheolaidd drwy gydol y 4 blynedd am ganlyniadau ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf.

## **Trefniadau Derbyn i Ysgolion**

---

Yn unol â gofynion statudol, mae gofyn i Awdurdodau Derbyn adolygu eu Trefniadau Derbyn i Ysgolion yn flynyddol. Ym mis Tachwedd 2017, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ar gyfer craffu cyn cabinet, a esboniodd fod y Cabinet, ar ôl dadansoddi nifer o ymatebion i ymgynghoriad 2018/19, wedi penderfynu ym mis Mawrth 2017 "awdurdodi swyddogion i ystyried y trefniadau derbyn ymhellach, gan gynnwys ymchwil ehangach i'r dewisiadau amgen ac effaith pob un, cyn ymgynghori ar Bolisi Derbyn i Ysgolion 2019/20 y Cyngor".

Tynnodd yr adroddiad Cabinet drafft sylw at nifer o faterion, gan gynnwys:

- ❖ Newidiadau i ddalgylchoedd a'r rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif;
- ❖ Meini Prawf Derbyn i Ysgolion Cyngor Caerdydd - adroddiad ymchwil
- ❖ Gwerthuso argymhellion yr adroddiadau ymchwil.
- ❖ Trefniadau Derbyn i Ysgolion ar gyfer 2018/19,

Argymhellodd yr adroddiad y canlynol i'r Cabinet:

- awdurdodi swyddogion i ymgynghori ar y meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd wedi'u hadolygu ar gyfer derbyn i addysg feithrin, gynradd ac uwchradd;
- nodi y bydd y Cabinet yn derbyn adroddiad yng ngwanwyn 2018 am ganlyniad yr ymgynghoriad i gefnogi'r gwaith o bennu'r trefniadau derbyn ar gyfer 2019/20;
- awdurdodi swyddogion i roi rhagor o ystyriaeth i'r potensial ar gyfer trefniadau derbyn er mwyn lleihau gwahanu o ran y niferoedd sy'n cael eu derbyn i ysgolion yng Nghaerdydd, a
- nodi y bydd adolygiadau i ddalgylchoedd ysgol yn cael eu gwneud ar ôl cadarnhau, yn dilyn ymgynghoriad, y newidiadau arfaethedig i batrwm cyfredol y ddarpariaeth ysgol sy'n dod o raglen Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Roedd llawer o ddiddordeb gan y cyhoedd yn yr adroddiad hwn a derbyniodd y Cadeirydd ohebiaeth gan bobl yn mynegi pryderon a chyflwyno cwestiynau. Hefyd roedd llawer o bobl yn bresennol i wrando ar y cyfarfod.

Ar ôl ystyried yr adroddiad drafft, ysgrifennodd y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet, cyn cyfarfod y Cabinet, i nodi na allai gymeradwyo'r adroddiad i'r Cabinet. Roedd y llythyr hefyd yn cynnwys esboniad o'r rhesymau am ei bryderon ynghyd â rhai awgrymiadau ar y llawlyfr Derbyn. Cymeradwywyd yr holl argymhellion gan y Cabinet heb unrhyw newidiadau.

Yn unol â'r weithdrefn statudol, ystyriwyd adroddiad Cabinet drafft arall ar Drefniadau Derbyn i Ysgolion 2019/20 gan y Pwyllgor ym mis Mawrth 2018. Nododd yr adroddiad hwn ganlyniad yr ymgynghoriad a gynhaliwyd rhwng 12 Rhagfyr 2017 a 30 Ionawr 2018 i'r Pwyllgor ac wedyn i'r Cabinet, ac mae'n argymhell y dylai'r Cabinet:

- ❖ ddod i benderfyniad ar Drefniadau Derbyn i Ysgolion 2019/20 drafft y Cyngor fel a nodir yn y Polisi Derbyn 2019/2020.
- ❖ nodi y dylai Trefniadau Derbyn i Ysgolion 2019/2020 weithredu Dewis A ar gyfer derbyn i addysg uwchradd, fel a nodir yn y Ddogfen Ymgynghori ar Drefniadau Derbyn.
- ❖ nodi y bydd y Cabinet yn derbyn adroddiad dilynol ar adolygiadau i ddalgylchoedd ysgol ar gyfer 2020/21.

Roedd llawer o ddiddordeb gan y cyhoedd yn yr adroddiad hwn a derbyniodd y Cadeirydd ohebiaeth gan bobl yn mynegi pryderon a chyflwyno cwestiynau. Hefyd roedd llawer o bobl yn bresennol i wrando ar y cyfarfod.

Ar ôl ystyried yr adroddiad drafft, ysgrifennodd y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet, cyn cyfarfod y Cabinet, yn nodi bod y Pwyllgor yn argymhell i'r Cabinet ohirio ystyried yr adroddiad er mwyn galluogi'r gyfarwyddiaeth i gynnal asesiad arall o'r effaith ar gydraddoldeb, er mwyn asesu effaith Dewis A ar garfan bresennol y disgyblion. Yn dilyn hynny, cymeradwyodd y Cabinet yr holl argymhellion yn ei gyfarfod ar 15 Mawrth 2018 heb ddiwygiad.

## **Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion**

---

### **Band A**

Mae'r Pwyllgor wedi parhau i graffu ar gynigion Band A yn ystod y flwyddyn hon. Ym mis Tachwedd 2017, ystyriodd y Pwyllgor adroddiad Cabinet drafft am y ddarpariaeth o leoedd ysgol gynradd cyfrwng Saesneg yn ysgolion wardiau Adamsdown a Sblot. Nododd y Pwyllgor fod y Cabinet wedi'i hysbysu ym mis Tachwedd 2016 i ohirio cynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Gynradd Moorland, ac awdurdodi swyddogion i adolygu amcanestyniadau disgyblion a galw. Nododd yr adroddiad Cabinet drafft amcanestyniad wedi'i ddiweddarau o ddisgyblion, a ddangosodd y byddai cyfanswm y galw am Ysgol Gynradd

Moorland yn gostwng ac na fyddai angen safle gwag Ysgol Glan Morfa bellach i greu lleoedd ysgol ychwanegol.

Adolygodd y Pwyllgor yr wybodaeth yn yr adroddiad Cabinet drafft a chytunwyd i gymeradwyo'r adroddiad i'r Cabinet.

## **Band B**

Ceisiodd Llywodraeth Cymru gyflwyniadau gan awdurdodau lleol sy'n adlewyrchu canlyniad y prosesau a amlygir fel blaenoriaethau ar gyfer datblygu rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2024 yn rhan o raglen fuddsoddi Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif. Bydd cam Band B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn dechrau ym mis Ebrill 2019 ac mae wedi'i drefnu i redeg tan 2024.

Y materion sy'n ymwneud â digonolrwydd, addasrwydd a chyflwr yng Nghaerdydd, a amlinellir yn yr adroddiad, yw'r sylfaen ar gyfer y cais am gyllid gan Gaerdydd i Lywodraeth Cymru o dan y rhaglen Band B. Mae angen y cyllid er mwyn galluogi'r Cyngor i wneud y canlynol:

- Cael gwared ar eiddo ysgol, diwedd oes, cyflwr "D";
- Mynd i'r afael â'r mater ynghylch digonolrwydd yr 8 dosbarth mynediad yn y sector uwchradd cyfrwng Saesneg yn ardal ganolog y ddinas;
- Mynd i'r afael â'r materion ynghylch digonolrwydd, cyflwr ac addasrwydd yn y sector arbennig, mewn lleoliadau cynradd ac uwchradd;
- Mynd i'r afael â materion digonolrwydd lleol mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn Nwyrain a Gorllewin y Ddinas;
- Mynd i'r afael â materion digonolrwydd lleol mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg ym Mae Caerdydd a gorllewin y ddinas.

Argymhellodd yr adroddiad i'r Cabinet ei fod yn nodi'r materion a amlinellwyd yn yr adroddiad hwn ac i dderbyn, ar gyfer penderfyniad dilynol, ragor o adroddiadau Cabinet yn y meysydd canlynol:

- Cynlluniau arfaethedig ar gyfer Caerdydd yn rhan o gam Band B rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn sgil dyraniadau cyllidebol gan Lywodraeth Cymru;
- Cynigion ar gyfer addasu a gwella darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Nghaerdydd.

Cymeradwyodd y Pwyllgor yr adroddiad i'r Cabinet a gofynnodd i'r Pwyllgor gael ei gynnwys yn llawn yn y gwaith o ddatblygu a drafftio pob adroddiad yn y dyfodol am yr ystâd addysg.

Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad nesaf, Blaenoriaethau Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif, yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2017. Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys y cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru o'i chymeradwyaeth o'r achos amlinellol strategol gwerth £284m a gyflwynwyd gan y Cyngor. Nododd yr adroddiad y matrices blaenoriaethu i nodi'r ysgolion hynny â'r angen mwyaf am fuddsoddiad, a rhestrodd ba ysgolion a nodwyd.

Cymeradwyodd y Pwyllgor yr adroddiad i'r Cabinet

Ym mis Ionawr 2018, ystyriodd y Pwyllgor adroddiad Cabinet drafft ar "Wella Darpariaeth i Blant a Phobl Ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol 2018-20". Esboniodd yr adroddiad oblygiadau Deddf Tribiwnlys Addysgol ac Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru), gan nodi brasamcan o'r twf yn y galw am ganolfan adnoddau arbenigol a darpariaeth ysgolion arbennig, ceisio cymeradwyaeth ar gyfer Blaenoriaethau Strategol ADY Caerdydd 2018-22, a cheisio awdurdod y Cabinet i ymgynghori ar amrywiaeth o gynlluniau arfaethedig, i ymestyn a chydweddu lleoedd ysgol arbennig a chanolfan adnoddau arbenigol.

Croesawodd y Pwyllgor yr adroddiad hwn a'i gymeradwyo i'r Cabinet.

## **Cynllun Corfforaethol Drafft a Chynigion Cyllidebol 2017-18**

---

Mae cyfansoddiad y Cyngor yn galluogi pwyllgorau craffu i ystyried cynigion cyllidebol drafft y Cabinet cyn iddynt gael eu hystyried gan y Cabinet a'r Cyngor llawn. Ystyriodd y Pwyllgor Gynllun Corfforaethol drafft y Cyngor a'r cynigion

cyllidebol drafft ar gyfer 2018-19, gan gynnwys cynigion arbedion manwl a'r Rhaglen Gyfalaf yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2018. Adolygodd y Cynllun Corfforaethol drafft a'r cynigion arbedion cyllidebol, gan brofi eu heffaith ar ddeilliannau i blant a phobl ifanc.

Nododd y Pwyllgor nifer o faterion ynghylch adroddiadau'r Cynllun Corfforaethol, y Gyllideb Gorfforaethol a Chyllideb y Gyfarwyddiaeth. Cafodd y pryderon hyn eu cynnwys mewn llythyr, a anfonwyd at Bwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad i'w ystyried wrth adolygu'r Cynllun Corfforaethol cyffredinol a chynigion Ymgynghoriad a Chyllideb ar 13 Chwefror 2018 ac i'w ystyried gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 15 Chwefror 2018.

Ystyriodd y Cabinet a'r Cyngor llawn lythyr y Pwyllgor yn ystod eu trafodaethau ar y cynigion. Gwnaeth yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad hefyd ymateb i'r llythyr gan roi eglurhad llawn o'r pwyntiau am yr arbedion cyllidebol penodol a nodwyd gan y Pwyllgor.

## **Coleg Dewi Sant**

---

Derbyniodd y Pwyllgor, yn ei gyfarfod ar 18 Ionawr 2018, sesiwn friffio ar lafar ynghylch adroddiad arfaethedig ar Newid Statws Arfaethedig Coleg Chweched Dosbarth Catholig Dewi Sant – Goblygiadau ar gyfer yr Awdurdod Lleol. Esboniodd y sesiwn friffio fod Coleg Chweched Dosbarth Catholig Dewi Sant yn ystyried ei opsiynau strategol ar gyfer y dyfodol, ac yn benodol, gysylltiad agosach â'r Cyngor.

Ar ôl ystyried y sesiwn friffio ar lafar, dymunodd y Pwyllgor fynegi ei gefnogaeth i'r cynigion pan gânt eu hystyried gan y Cabinet.



## Monitro Perfformiad – Canlyniadau Gwell

Mae gan y Pwyllgor rôl ddiffiniedig glir yn nhrefniadau gwella a llywodraethu'r Cyngor, ac mae ei raglen waith yn cynnwys lefel uchel o fonitro ac adolygu perfformiad cyfarwyddiaethau, rheoli adnoddau, gosod targedau a rheoli perfformiad.

Eleni, adolygodd y Pwyllgor lefel ymyrraeth yr aelodau a monitro perfformiad a'r gyllideb, yn benodol yn y Pwyllgor. Cytunodd y Pwyllgor i sefydlu Panel Monitro Cyllidebol i ryddhau amser yn y Pwyllgor a rhoi gwell ffocws i ddadansoddiad o wybodaeth aelodau drwy banel anffurfiol parhaus sy'n adrodd yn ôl i'r Pwyllgor llawn.

### Panel Monitro Cyllidebol

---

Cytunodd y Pwyllgor i greu Panel Monitro Cyllidebol i ymchwilio'n fwy effeithiol i gynnydd pob cyfarwyddiaeth o ran cyflawni cynigion arbedion cytunedig y Cyngor, ac o ran rheoli unrhyw orwariant posib yn ystod y flwyddyn.

Cytunodd y Panel ar raglen o gyfarfodydd i adolygu adroddiadau Monitro'r Gyllideb y Cabinet pan gânt eu cyhoeddi. Mae'r Panel wedi cwrdd ddwywaith eleni ac wedi adolygu adroddiadau monitro cyllidebol Mis 4 a Mis 6 y Cabinet. Adroddwyd am ganlyniad pob cyfarfod y panel (lle roedd yn briodol) wrth y Pwyllgor ac anfonwyd llythyrau at gyfarwyddwyr (lle roedd angen) i geisio eglurder ynglŷn â'r rhaglen arbedion, manylion am ariannu cyfrifon ac ymrwymiad i ymgymryd ag archwiliad manwl.

Ymatebwyd i bob cais am wybodaeth yn brydlon, ac adroddwyd yn ôl i aelodau yn eu cyfarfod panel nesaf.

## **Adroddiadau Perfformiad Chwarterol - Gwasanaethau Plant**

---

Yn ystod 2017/18 nododd y Pwyllgor welliant cyffredinol o ran perfformiad mewn sawl dangosydd; fodd bynnag, gwnaethant fynegi eu pryder ynghylch rhai dangosyddion a oedd yn nodi gostyngiad mewn perfformiad. Mae'r Pwyllgor wedi adolygu pob adroddiad perfformiad corfforaethol chwarterol gyda chyfres o ddangosyddion lleol y mae'r aelodau wedi gofyn i'w monitro'n rheolaidd.

Mae'r Pwyllgor wedi adolygu'r holl adroddiadau dangosyddion perfformiad lleol yn fanwl, ac wedi ysgrifennu ar ôl hyn i nodi a oes ganddynt bryderon ynghylch ardaloedd lle roedd perfformiad naill ai'n gostwng yn araf deg, neu wedi gostwng yn gyflym. Mae aelodau hefyd wedi nodi eu gwerthfawrogiad mawr o'r gwaith y mae swyddogion wedi'i wneud yn y meysydd hynny lle cafwyd gwelliant.

Yn ddiweddar, trafododd y Pwyllgor adolygu fformat a ffocws adroddiadau perfformiad y dyfodol a chytunwyd i sefydlu panel perfformiad er mwyn helpu i ddatblygu adroddiad perfformiad mwy priodol i'r Pwyllgor.

## **Adroddiadau Perfformiad – Addysg a Dysgu Gydol Oes**

---

Parhaodd y Pwyllgor gyda'i ddull newydd o ran craffu perfformiad addysgol drwy drefnu archwiliadau cyson drwy gydol y flwyddyn o agweddau penodol ar berfformiad, ynghyd â throsolwg o berfformiad blynyddol ym mis Ionawr. Mae'r cyfarfodydd wedi canolbwyntio ar weithredu strategaeth Caerdydd 2020 ynghyd â'r adroddiadau Perfformiad Corfforaethol Addysg.

Mae'r adroddiadau monitro perfformiad yn galluogi'r Pwyllgor i adolygu, asesu a herio'r broses o roi'r holl gamau gweithredu ar waith a, thrwy wneud hynny, ddarparu addysg o safon a chyflawni canlyniadau gwell i blant a phobl ifanc yn ysgolion Caerdydd.

Mae'r Pwyllgor wedi ysgrifennu at yr Aelod Cabinet yn gyson gan geisio eglurder ynglŷn â chymau gweithredu a gwelliannau perfformiad arfaethedig.

## **Consortium Canolbarth y De – Adroddiad Perfformiad Blynyddol**

---

Ystyriodd y Pwyllgor gynllun busnes y Consortiwm fel rhan o'i ystyriaeth o Gynllun Busnes Addysg. Prif nod y Pwyllgor oedd ceisio sicrhau bod y ddau gynllun busnes yn gweithio gyda'i gilydd o ran sicrhau gwelliant yng nghanlyniadau disgyblion Caerdydd.

Yn ogystal, adolygodd y Pwyllgor y gwaith o fonitro ac asesu gwaith y Consortiwm yng Nghaerdydd ynghyd â phapur briffio yn nodi sut roedd y Consortiwm yn cyfrannu at godi safonau yn ysgolion Caerdydd. Bu'r aelodau hefyd yn trafod y ffordd orau i bwyllgorau craffu'r pum awdurdod lleol yn y Consortiwm graffu ar gyfeiriad strategol a chanlyniadau'r Consortiwm. Cytunwyd y byddai cadeiryddion a swyddogion craffu'r pum pwyllgor craffu yn cwrdd fel panel craffu cydweithredol i gynnal trosolwg mwy strategol.

## **Panel Craffu Consortiwm Canolbarth y De**

---

Bu'r Cadeirydd yn cwrdd â Rheolwr-Gyfarwyddwr Consortiwm Addysg Canolbarth y De ynghyd â chadeiryddion a swyddogion pwyllgorau craffu'r pum awdurdod lleol (Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful a Bro Morgannwg) i drafod a fyddai modd i gyd-banel craffu gwrdd bob tymor i graffu ar waith y Consortiwm.

Cyfrifoldeb statudol Awdurdodau Lleol unigol yw perfformiad ysgolion ynghyd â pherfformiad y Consortiwm cysylltiedig, gyda staff y Consortiwm yn bresennol; fodd bynnag, mae craffu ar y Consortiwm ei hun hefyd yn hanfodol ac mae angen rhoi strwythur craffu priodol ar waith i ystyried perfformiad y rhanbarth a rhannu arfer gorau a gwybodaeth ar draws y pum Pwyllgor Craffu.

Yn y cyfarfod, cytunodd y grŵp, yn amodol ar gymeradwyaeth Cydbwyllgor y Consortiwm, y byddai Cydbanel Cadeiryddion Craffu a Swyddogion Craffu yn cael ei sefydlu i graffu ar waith y Consortiwm. Byddai'r panel yn cynnwys cadeiryddion y Pwyllgorau Craffu Addysg ym mhob un o'r awdurdodau lleol (neu gynrychiolydd enwebedig o'r Pwyllgor Craffu) wedi'u cefnogi gan Swyddog Craffu enwebedig.

Byddai'r panel yn cwrdd teirgwaith y flwyddyn gyda chyfarfodydd wedi'u trefnu yn fuan ar ôl pob cyfarfod Cydbwyllgor y Consortiwm.

Byddai cylch gorchwyl y gweithgor yn ystyried eitemau sefydlog, megis:

- Cynnydd y Consortiwm yn erbyn ei Gynllun Busnes tair blynedd a hynny'n rheolaidd;
- Tueddiadau perfformiad rhanbarthol;
- Rhannu arfer craffu gorau ar draws y rhanbarth;
- Y grŵp hefyd i adrodd yn flynyddol i'r Pwyllgor Craffu perthnasol ym mhob awdurdod lleol a/neu roi adborth i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu perthnasol ym mhob awdurdod lleol;
- Rhannu nodiadau o'i gyfarfod â'r Cydbwyllgor a derbyn ymateb i'r rhain gan y Cydbwyllgor.

Mae'r panel hwn wedi cytuno ar ei raglen waith ac eisoes wedi cynnal dau gyfarfod.

## Adroddiadau Briffio'r Pwyllgor – Canlyniadau Gwell

Cytunodd y Pwyllgor i dderbyn papurau briffio y tu allan i agenda arferol y Pwyllgor fel bod modd iddynt gael eu hadolygu'n fwy effeithiol. Cytunodd y Pwyllgor i dderbyn y briffiau hyn pryd bynnag y byddent ar gael.

Ymhlith y pynciau a drafodwyd roedd:

- ❖ Arwyddion Diogelwch
- ❖ Gwasanaeth Ieuenctid
- ❖ Rhaglen Gyfoethogi Gwyliau Ysgol

Mae canlyniad adolygiad yr aelodau o'r briffiau wedi'i adrodd i'r Pwyllgor ac mae llythyrau priodol wedi'u hanfon at y cyfarwyddwyr. Ymatebwyd i bob cais am wybodaeth yn brydlon, ac adroddwyd yn ôl i'r aelodau.

## Eitemau Posib ar gyfer Rhaglen Waith 2018/19

Mae'r Pwyllgor yn derbyn diweddariadau cyson am y rhaglen waith y mae modd i'r aelodau ystyried eitemau sy'n cael eu hawgrymu gan aelodau'r cyhoedd, pobl ifanc, sefydliadau, ac aelodau'r Cyngor a phwyllgorau craffu eraill er mwyn eu cynnwys yn y rhaglen waith. Hefyd gall aelodau'r Pwyllgor awgrymu unrhyw faterion newydd a allai fod o ddiddordeb i'r Pwyllgor. Pe byddai'r Pwyllgor yn ystyried rhaglen waith newydd ar gyfer blwyddyn 2018/19, hoffai'r Pwyllgor argymhell ystyried yr eitemau canlynol i'w cynnwys yn ei raglen waith:

- ❖ Gostwng a monitro nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant
- ❖ Strategaeth Caerdydd 2020
- ❖ Perfformiad y consortiwm
- ❖ Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- ❖ Briffio ar gynllun Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol Caerdydd
- ❖ Briffio ar effaith andwyol Profiadau Plentyndod Negyddol (PPNau)

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gydlynu'r gwaith o lunio'r prif strategaethau a chynlluniau sy'n ymwneud â datblygu a darparu gwasanaethau ar draws amrywiaeth o wasanaethau ac asiantaethau. Gallai rhaglen waith y Pwyllgor i'r dyfodol gynnwys:

- ❖ Cynllun Gwella'r Gwasanaethau Plant
- ❖ Cynllun Corfforaethol a'r Gyllideb
- ❖ Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd

Mae'r Pwyllgor wedi ymgymryd â nifer o ymchwiliadau grwpiau gorchwyl yn ystod y flwyddyn, a bydd yn nodi materion pellach i'w hystyried yn ystod Mehefin/Gorffennaf 2018. Awgrymir hefyd bod y Pwyllgor yn parhau i dderbyn yr adroddiadau cynnydd a pherfformiad rheolaidd am:

- ❖ Berfformiad y Gwasanaethau Plant
- ❖ Perfformiad Ysgolion
- ❖ Cynigion a Monitro Cyllidebol

Gwasanaethau Craffu, Cyngor Dinas a Sir Caerdydd  
Ystafell 263, Neuadd Y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW  
Ffôn: 029 2087 2781 E-bost: [barngraffu@caerdydd.gov.uk](mailto:barngraffu@caerdydd.gov.uk)  
© 2018 Cyngor Dinas a Sir Caerdydd